**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 21 Mawrth 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | R V Smith | A H Stevens |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A Anthony

---

### 121. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 127 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorydd A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 129 "Rhaglen Grant Cyfleusterau i’r Anabl a Grant Gwella 2024/2025” a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

3) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson a D H Hopkins gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 131 “Cyfleusterau bwyta Newydd I gefnogi’r rhaglen Prydau Ysgol am ddim I holl blant Ysgolion Cynradd yn ogystal â chae pob tywydd a chyfleusterau cymunedol ar gyfer Ysgol Gynradd Townhill” a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

4) Datganodd y Cynghorydd E J King gysylltiad personol â Chofnod 134 “Cymeradwyo Grantiau Allanol ar gyfer Oriel Gelf Glynn Vivian”.

5) Datganodd y Cynghorwyr R Francis-Davies a R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 135 “Estyniad i’r cytundeb rheoli presennol a’r trefniadau prydlesu yn ymwneud â Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe” a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

## 122. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2024.

2) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2024.

## 123. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 124. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 125. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 126. Ardrethi Busnes - Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro (Cymru) 2024/25.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch dros dro sy'n berthnasol i Ardrethi Busnes, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi manylion y cynllun y'u nodir yn yr adroddiad.

2) Mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi a amlinellir yn yr adroddiad ar gyfer 2024/2025.

## 127. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr awdurdod lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y Cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

| | |
|---|---|
| Ysgol Gyfun Gellifedw | Finola Wilson |
| Ysgol Gynradd Brynhyfryd | Y Cyng. Mike White |
| Ysgol Gynradd Treforys | Nichola James |
| Ysgol Gynradd Parkland | Dr. Mahaboob Basha |
| Ysgol Gynradd Pen-y-Fro | Andrea Hill-Jones |
| Ysgol Gynradd Pontlliw | Melissa Taylor |
| Ysgol Gynradd Sgeti | Y Cyng. Nicola Furlong<br>Kay Meade |

## 128. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 3 2023/24.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2023/2024.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi perfformiad y Cyngor wrth gyflawni amcanion lles y Cyngor yn Chwarter 3 2023/2024.

2) Cymeradwyo defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 129. Rhaglen Grant Cyfleusterau I'r Anabl A Grant Gwella 2024/25.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn darparu manylion y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella ac yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau yn Rhaglen Gyfalaf 2024/2025. Darparu manylion am ddyraniad Y Gronfa Tai â Gofal (CTG) i Raglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl y Cyngor ar gyfer 2023/2024 yn ôl-weithredol ac ar gyfer rhaglen 2024/2025. Cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf), i ymrwymo ac awdurdodi cynlluniau yn ôl y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'u Gwella, fel y'i nodwyd, gan gynnwys ei goblygiadau ariannol, a chynnwys y rhaglen yng Nghyllideb Gyfalaf 2024/25.

2) Darparu dyraniad y Gronfa Tai â Gofal (CTG) o £465,840 i'r Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl, wedi'i rannu'n ddyraniad o £232,920 yn 2023/24 i'w

gymeradwyo'n ôl-weithredol o ystyried dyfarnu'r cyllid yn hwyr, a £232,920 yn 2024/2025.

## 130. Dyraniad Cyfalaf i Asedau Isadeiledd Priffyrdd 2024-25.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhau Rhaglen Gwaith Cyfalaf ar gyfer asedau'r isadeiledd priffyrdd.

**Penderfynwyd:**

1) Caiff y dyraniadau dangosol arfaethedig, ynghyd â'r Goblygiadau Ariannol a nodir yn Atodiad A yr adroddiad, eu cymeradwyo a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

2) Rhoi awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant, gyda chydsyniad Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, i flaenoriaethu, cwblhau a chlustnodi arian i'r cynlluniau priodol yn unol â'r ymagwedd flaenoriaethu a nodwyd yn yr adroddiad.

## 131. Cyfleusterau bwyta newydd i gefnogi'r rhaglen Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd yn ogystal â chae pob tywydd a chyfleusterau cymunedol ar gyfer Ysgol Gynradd Townhill.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf" - i neilltuo ac awdurdodi cynlluniau i’r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cynllun cyfalaf o £3,257,071, ar gyfer cyfleusterau bwyta newydd i gefnogi'r rhaglen Prydau Ysgol am Ddim Cyffredinol ynghyd â chae pob tywydd a chyfleusterau cymunedol ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Townhill, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r cyllid grant o £500k a ddyrannwyd i'r flwyddyn ariannol nesaf.

## 132. Gwerthiant posib o Dir ar gyfer Tai'r CDLl yn Ardal Datblygu Strategol (SD) H, Waunarlwydd a Fforest-fach.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio caniatâd i drafod gwerthiant yn y dyfodol am swm sy'n debygol o fod yn fwy na chyfyngiadau'r awdurdod dirprwyedig.

**Penderfynwyd:**

1) Rhoi caniatâd i fwrw ymlaen â thrafodaethau a chytundebau opsiynau posib gyda'r partïon sydd â diddordeb ac, yn y pen draw, ymrwymo i gontract neu gontractau gwerthu ar "Werth y Farchnad". Mae'n debygol fydd swm/symiau o'r fath yn fwy na chyfyngiadau'r awdurdod dirprwyedig.

2) Rhoi awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Cyllid gynnal a chwblhau unrhyw drafodaethau ar gyfer gwaredu, ac ymrwymo i, unrhyw ddogfennaeth berthnasol i amddiffyn buddiannau'r Cyngor.

**133. Strategaeth Hygyrchedd i Ysgolion.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Hygyrchedd ddrafft ar gyfer Ysgolion 2024-2027. Mae'r Strategaeth yn nodi cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth Addysg ar gyfer cynyddu hygyrchedd ysgolion yr awdurdod lleol i ddysgwyr anabl yn raddol.

**Penderfynwyd:**

1) Cynhelir ymgynghoriad i gasglu barn rhanddeiliaid ar y Strategaeth Hygyrchedd ddrafft i sicrhau bod gan ddisgyblion anabl fwy o fynediad at bob ysgol a gynhelir yn Abertawe.

2) Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd adroddiad pellach yn cael ei baratoi ar gyfer y Cyngor gyda chanlyniadau'r ymgynghoriad, a mabwysiadir fersiwn derfynol o'r Strategaeth.

**134. Cymeradwyo Grantiau Allanol ar gyfer Oriel Gelf Glynn Vivian.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad a oedd yn cadarnhau llwyddiant ceisiadau am gyllid ar gyfer Oriel Gelf Glynn Vivian a cheisiwyd cymeradwyaeth ôl-weithredol y Cabinet ar gyfer y ceisiadau a wnaed, a ataliwyd ar y pryd am y rhesymau a nodir isod.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cyfle a roddir i'r gwasanaeth i gael mynediad at gyllid allanol â chyfyngiad amser ar gyfer y Glynn Vivian, trwy wahoddiad gan Amgueddfa Ryfel Ymerodrol a Chyngor Celfyddydau Cymru (Llywodraeth Cymru).

2) Cymeradwyo'r ymateb drwy gais yn ffurfiol, yn ôl-weithredol, er mwyn iddynt gael mynediad at y cyllid.

3) Cymeradwyo telerau cytundebol y grantiau a'u defnyddiau, a fydd yn cynyddu cyrhaeddiad ac effaith yr Oriel yng Nghymru, Abertawe, ac yn rhyngwladol fel yr amlinellir ym Mharagraffau 1.1 ac 1.2 yr adroddiad.

**135. Estyniad i'r cytundeb rheoli presennol a'r trefniadau prydlesu yn ymwneud â Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe.****

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Brys:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “naill ai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro'n ardystio y gallai unrhyw oedi sy'n*

*debygol o gael ei achosi gan y weithdrefn galw i mewn wneud niwed i'r cyngor neu fudd y cyhoedd, gan gynnwys methu cydymffurfio â gofynion statudol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymestyn y trefniadau rheoli presennol ar gyfer Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe rhwng y Cyngor, Prifysgol Abertawe a Phwll Cenedlaethol Cymru, Abertawe. I gydymffurfio â Rheol 5 y Weithdrefn Ariannol i ofyn am gymeradwyaeth i barhau â'r trefniadau cyllido presennol am ddwy flynedd arall.

**Penderfynwyd:**

1) Cafodd y trefniadau rheoli gwreiddiol ar gyfer Pwll Cenedlaethol Abertawe a'r cyfleusterau chwaraeon cysylltiedig eu hymestyn yn ffurfiol am gyfnod o dri mis rhwng 24 Rhagfyr 2023 a 31 Mawrth 2024 a chymeradwywyd yr estyniad hwnnw yn ôl-weithredol.

2) Cymeradwyo'r estyniad i'r trefniadau rheoli am gyfnod pellach o hyd at ddwy flynedd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2026 a chymeradwyo'r goblygiadau ariannol a nodir ym Mharagraff 4 yr adroddiad.

3) Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyfreithiol gymeradwyo ac ymrwymo i unrhyw ddogfennau cyfreithiol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r estyniad a diogelu buddiannau'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.44 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 21 Mawrth 2024 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 26 Mawrth 2024 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 27 Mawrth 2024 |